# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 14 Mawrth 2022

Amser: Times Not Specified

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/12781) yn:

http://senedd.tv/cy/12781

# Anffurfiol, Preifat, O bell

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Jenny Rathbone AS (Cadeirydd)<br>Jane Dodds AS<br>Tom Giffard AS (yn lle Altaf Hussain AS)<br>Sarah Murphy AS<br>Sioned Williams AS<br>Ken Skates AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Rhys Morgan (Clerc)<br>Rachael Davies (Ail Glerc)<br>Angharad Roche (Dirprwy Glerc) |

## 1 Cofrestru

1.1 Cofrestrodd y cyfranogwyr ar gyfer y cyfarfod.

## 2 Sylwadau agoriadol a chroeso gan y Cadeirydd

2.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyfranogwyr i'r cyfarfod.

## 3 Trafodaethau grŵp

3.1 Ymunodd y cyfranogwyr â'r ystafelloedd trafod i drafod y Cylch Gorchwyl drafft ar gyfer ymchwiliad i ddiogelwch menywod a thrais ar sail rhywedd. Dyma gylch gorchwyl drafft yr ymchwiliad:

- Profiad a chanfyddiad menywod a merched o drais ac aflonyddu rhywiol mewn mannau cyhoeddus yng Nghymru, fel ar drafnidiaeth gyhoeddus, mewn dinasoedd, mewn ysgolion, mewn mannau gwyrdd ac ati. Yr angen / posibilrwydd o ran deddfwriaeth yn y dyfodol i wneud menywod a merched yn fwy diogel yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas ag aflonyddu rhywiol cyhoeddus.

- Trais yn erbyn menywod a merched yn y cartref, gan gynnwys ymdriniaeth/ dealltwriaeth yr heddlu o'u dyletswydd (ar gais y fenyw) i ymyrryd mewn sefyllfaoedd o drais domestig, hyd yn oed pan fo'n digwydd yn y cartref.

- Ffocws ar grwpiau a materion sydd wedi'u hesgeuluso, i ddeall yn well sut mae trais yn wahanol i rannau gwahanol o'r boblogaeth, yn benodol menywod â statws mewnfudo ansicr, neu'r rhai y mae eu statws mewnfudo yn dibynnu ar briod neu gyflogwr.

- Cwmpas, cyrhaeddiad a'r broses o gomisiynu gwasanaethau ac ymyriadau ar gyfer goroeswyr yng Nghymru, ac unrhyw effaith y mae pandemig COVID-19 wedi'i chael ar sefydliadau trydydd sector sy'n darparu llochesi, cymorth cyfreithiol a gwasanaethau cymorth.

- Dull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran atal cychwynnol, ac a wneir digon o ymdrech i atal trais cyn iddo ddigwydd drwy weithio gyda grwpiau allweddol (fel dynion, glasoed a phlant sydd wedi bod yn dyst i gamdriniaeth), ac i newid normau diwylliannol a chymdeithasol sy'n ategu trais ar sail rhywedd.

- A yw dyraniadau cyllideb Llywodraeth Cymru yn ddigonol i weithredu Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 a gweithredu cam nesaf ei strategaeth genedlaethol ar gyfer 2022-26, gan gynnwys ystyried a gafwyd buddsoddiad cost-effeithiol mewn adnoddau i gryfhau arbenigedd mewn sectorau allweddol ac i wella tagfeydd o ran darparu gwasanaethau (h.y. er mwyn i Lywodraeth Cymru gyflawni ei hymrwymiadau polisi i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod a merched).

## 4 Adborth o'r sesiynau grŵp

4.1 Rhoddodd pob grŵp wybod beth oedd eu canfyddiadau allweddol.

## 5 Sylwadau i gloi

Diolchodd y Cadeirydd i'r cyfranogwyr am eu cyfraniadau a chaeodd y cyfarfod.